Pam X mir Open 2024
g39, Oxford Street, CF24 3DT
**Dyddiadau'r arddangosfa: 8fed Mehefin – 22ain Mehefin**
**rhagolwg 7 Mehefin 6–8pm**
**dyddiadau gollwng:**
**Dydd Iau, 30 Mai 2pm–6pm // Dydd Sadwrn, 1 Mehefin 1pm–6pm**

Canllawiau cyflwyno a gwybodaeth:

Rhestr wirio:
A yw'r gwaith yn 2D ac a ellir ei osod ar wal?
A yw'r gwaith 100cm x 100cm o led ac uchder a heb fod yn ddyfnach na hyd at 30cm (neu 39.5 modfedd x 39.5 modfedd X 12 modfedd)?
A ydych chi'n credu bod y gwaith yn briodol ar gyfer cynulleidfa sy'n cynnwys oedrannau a diwylliannau amrywiol?*
A ydych chi'n byw yng Nghymru?

Os mai ' ie' yw'r ateb i bob un o'r uchod, dyma'r dyddiadau allweddol a'r manylion ar gyfer sut i gyflwyno'ch gwaith:
Dewch â'ch gwaith i g39, Oxford Street, CF24 3DT, ar 31 Mai rhwng 2pm a 6:30pm neu 1 Mehefin rhwng 1pm a 6pm
Mae lle i barcio y tu allan, ac os oes angen cymorth arnoch pan fyddwch chi'n cyrraedd, ffoniwch y rhif isod ac fe rown help llaw i chi.
Os ydych chi'n postio gwaith, bydd angen iddo gyrraedd dim hwyrach na dydd Mercher, 5 Mehefin, a chofiwch gynnwys cyfeiriad dychwelyd fel y gallwn ei anfon yn ôl atoch ar ddiwedd yr arddangosfa.
*Os nad ydych chi'n gallu cyflwyno'ch gwaith oherwydd symudedd neu resymau eraill o ran mynediad, cysylltwch â ni ar yr e-bost neu'r rhif ffôn isod ac fe geisiwn drefnu ffordd arall o gael eich gwaith celf i'r oriel.*

**Trwy gyflwyno eich gwaith, rydych chi'n cytuno i'r telerau ac amodau canlynol :**

## Arddangosfa Agored madeinroath 2024
## Telerau ac Amodau

### 1. Arddangos/Fframio
Byddwn yn derbyn gwaith o unrhyw gyfrwng 2D. Bydd angen i waith sydd wedi ei fframio/estyn ein cyrraedd ni yn barod i'w hongian gyda phlatiau drych wedi eu gosod hanner ffordd i lawr ochrau fertigol y gwaith. Bydd gwaith heb ei fframio yn cael ei osod gyda phinnau neu glad ar y cefn, mae croeso i chi gynnwys nodyn

gyda'ch gwaith yn datgan sut byddai well ganddoch chi osod eich gwaith ar bapur ar y wal. Ni fydd gwaith gor-faint yn cael ei dderbyn.

### 2. Trosglwyddiad y gwaith

Mae angen i'r gwaith ein cyrraedd ni erbyn y dyddiadau sydd wedi eu clustnodi uchod pryd y byddwch chi'n derbyn derbyneb am eich gwaith. Ni fydd gwaith sydd yn cyrraedd ar ôl yr amseroedd yma yn cael eu hongian onid ein bod ni wedi trafod gyda chi o flaen llaw a gwneud trefniadau eraill gyda chi. Bydd cyflwr y gwaith yn cael ei wirio wrth ei ddad-bacio, a byddwch chi'n cael derbyneb amdano.

### 3. Safon a chynnwys y gwaith

Dylai bob darn o waith gael ei gyflwyno i'w safon uchaf bosib, a bod yn ddiogel i'w hongian/arddangos. Gwelwch pwynt I. Ar gyser gwaith hes ai fframio.
*Bydd angen i bob darn o waith fod yn addas ar gyfer cynulleidfa amrywiol o ran diwylliant ac oedran, ni fyddwn ni'n derbyn delweddau a allai fod yn dramgwyddus. Pam/g39 bydd yn penderfynu pa waith bydd yn cael ei arddangos, ac er ei fod yn fwriad ganddom ni i gynnwys pob darn o waith, mae'n rhaid i ni hefyd gysidro a byddai cynnwys gwaith yn debygol o dramgwyddo. Os oes ganddoch unrhyw bryder am addasrwydd eich gwaith chi, os gwelwch yn dda cysylltwch drwy'r ebost isod a gallwn ni drafod eich pryderon chi. Mae'r penderfyniad terfynol yn un i Pam/g39 i'w wneud.

### 4. Hongian y gwaith

Bydd hongian ac arddangos y gwaith yn cael ei wneud gan MiR a thîm technegol g39, bydd y gwaith yn cael ei drîn gyda phob gofal i osgoi unrhyw niwed. Bydd rhestr o'r gwaith ar gael i ymwelwyr i'r galeri pan fydd yr arddangosfa'n agor.

### 5. Gwerthiant

Does dim angen i'r gwaith yn yr arddangosfa yma fod ar werth. Os ydy'r gwaith ar werth, os gwelwch yn dda ysgrifennwch yn glir isod beth yw pris y gwaith. Bydd y gwerthiant yn cael ei gyfrifo ar ddiwedd yr arddangosfa. Bydd g39 yn nodi a chadw pob taliad tra bo'r arddangosfa ymlaen, wedyn bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu gan MiR ar ôl i'r arddangosfa gau.

### 6.Casglu eich gwaith

Cewch wybod y dyddiad i gasglu eich gwaith pan rydych chi yn ei ollwng. Nodwch os gwelwch yn dda, oherwydd bod gwerth 15 mlynedd o weithiau na cawson eu casglu yma erbyn hyn, yn anffodus o hyn ymlaen byddwn yn storio gweithiau am bythefnos yn unig. Wedi hynny, bydd unrhyw darn sydd heb ei gasglu yn cael ei roddi neu ei waredu.
Cysylltwch o flaen llaw os nad ydych yn gallu casglu eich gwaith ar y dyddiad penodedig.

Os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni os na allwch chi gasglu eich gwaith ar y dyddiadau yma,  ni fyddwn ni'n gallu cymryd cyfrifoldeb am amser penagored am unrhyw waith heb ei gasglu.
Cyn i chi gyflwyno eich gwaith celf, atodwch yr wybodaeth isod i gefn eich gwaith. (os na allwch chi argraffu'r ffurflen, mae gwybodaeth mewn llawysgrifen yn iawn). Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn i'ch gwaith gael ei gynnwys, a byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'n cael ei wneud cyn i chi gyrraedd g39, ond gallwn eich helpu ar y diwrnod gollwng os nad ydych chi'n siŵr o unrhyw beth).
**Enw:**

**Cyfeiriad:**
**Ffôn Symudol :**
**E-bost :**

**Teitl y Gwaith Celf :**

**Pris y Gwaith Celf os yw ar werth :**

**..................................................................................................................**
**Cofiwch gynnwys darn ychwanegol o bapur gyda'r wybodaeth ganlynol. Byddwn yn defnyddio hwn ar gyfer blaen y gwaith pan fyddwn yn hongian y sioe, ac ar gyfer y daflen (heb fanylion cyswllt).**

**Teitl y Gwaith**

**Arlunydd**

**Manylion cyswllt (rhif ffôn yn ddelfrydol, neu gyfeiriad e-bost)**

**Pris os yw ar werth**
**£ ................................................................**

**Cofiwch, dylai eich enw a'ch manylion cyswllt fod ynghlwm wrth gefn y gwaith hefyd.**
**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost atom, gail@madeinroath.com, neu ffoniwch 07930397982**
**Edrychwn ymlaen at weld eich gwaith!**